# Rheoliadau ar gyfer Uwch Ddoethuriaethau

Rheoliad 12: 2021 Fersiwn 01
Daw i rym: 1 Tachwedd 2021

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn Disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Tachwedd 2021 | 2018 Fersiwn 02 | Mân addasiadau yn unol ag ailstrwythuro'r Brifysgol. |
| 1 Mai 2018 | Fersiwn 2013 | Diweddariad cyffredinol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad y Cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gweinyddiaeth Myfyrwyr. | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig. | 2 Tachwedd 2021. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Rheoliadau ar gyfer Uwch Ddoethuriaethau

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r rheoliadau a'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu Uwch Ddoethuriaethau.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Rheoliadau Cyffredinol

1. Dyfernir Uwch Ddoethuriaethau am gyfraniadau sy'n cael eu cyhoeddi i hyrwyddo gwybodaeth am y meysydd pwnc canlynol:
   - Doethur mewn Llên (DLitt)

     Ystod eang o bynciau yn y dyniaethau, a lle bo'n briodol mewn Economeg, Gwyddorau Cymdeithas, Addysg, a Daearyddiaeth.
   - Doethur mewn Gwyddoniaeth (DSc)

     Gwyddorau Pur a Chymhwysol, a lle bo'n briodol mewn Economeg, Gwyddorau Cymdeithas, Addysg, a Daearyddiaeth.
   - Doethur mewn Astudiaethau Economaidd a Chymdeithasol (DScEcon)

     Gwyddorau Cymdeithas a Busnes.
   - Doethur yn y Gyfraith (LLD)

     Cyfreitheg, Theori ac Ymarfer y Gyfraith a Deddfwriaeth, a phynciau cytras.
   - Doethur mewn Cerddoriaeth (DMus)

     Cyfansoddiadau cerddorol sy'n gyfystyr â chyfraniad sylweddol at gelfyddyd cerddoriaeth.
   - Doethur mewn Diwinyddiaeth (DD)

     Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol.
2. Os oes ansicrwydd ynglŷn â pha gymhwyster i'w ddewis, bydd y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) yn penderfynu pa Uwch Ddoethuriaeth sydd fwyaf priodol.
3. Gall graddedigion y Brifysgol wneud cais am Uwch Ddoethuriaeth:
   - Ddwy flynedd ar ôl cael gradd Doethur mewn Athroniaeth **neu**
   - Dair blynedd ar ôl cael gradd Meistr (gan gynnwys gradd Meistr mewn Athroniaeth a gradd Meistr drwy Ymchwil) **neu**
   - Ddeng mlynedd ar ôl cael gradd Baglor.
4. Gall aelod o staff y Brifysgol, neu sefydliad neu ganolfan gysylltiedig, wneud cais am Uwch Ddoethuriaeth. Mae hyn yn cynnwys staff addysgu, ymchwil, gweinyddol, llyfrgell a thechnegol, ac aelodau staff er anrhydedd. Rhaid i'r ymgeisydd fod wedi graddio mewn Prifysgol arall ac yn aelod llawn amser o staff y Brifysgol neu sefydliad neu ganolfan gysylltiedig ers pum mlynedd o leiaf.

Mae'n rhaid bod cyfnod penodol wedi mynd heibio ers cael gradd neu radd uwch a chaiff y cyfnodau hynny eu diffinio ym mharagraff 3.

**Gwneud Cais**

5. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno'r pethau canlynol i'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr:
    - Y ffurflen gais (mae copïau ar gael gan y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr).
    - Crynodeb o tua 1500-2000 o eiriau. Rhaid i'r crynodeb nodi (a) ym mha faes y mae'r ymgeisydd wedi arbenigo a (b) y cyfraniad y mae'r gwaith wedi ei wneud at wybodaeth yn y maes hwnnw.
    - Dau gopi o bob un o'r gweithiau cyhoeddedig.
    - Y ffi ymgeisio (fel y caiff ei nodi ar wefan y Brifysgol).
6. At ddiben y rheoliadau hyn, mae 'gwaith cyhoeddedig' yn cynnwys:
    - Llyfrau a/neu erthyglau, wedi'u hargraffu neu eu hatgynhyrchu mewn modd arall.
    - Erthyglau sy'n ymddangos mewn cyfnodolyn neu gyhoeddiad arall a noddir gan gymdeithas ddysgedig.
    - Yn achos gradd DMus, cyfansoddiadau cerddorol a gyflwynir mewn print neu lawysgrif neu, lle nad oes sgôr yn bodoli, fel recordiad sain.

    Mae disgwyl y bydd y gwaith wedi bod ar gael i arbenigwyr perthnasol fwrw golwg feirniadol drosto. Gall yr arholwyr ddiystyru unrhyw waith nad yw wedi bod ar gael oherwydd diffyg hygyrchedd neu oherwydd ei fod wedi'i gyflwyno am radd yn rhy fuan ar ôl ei gyhoeddi.
7. Gellir cyflwyno cais ar unrhyw adeg. Rhaid i geisiadau ddod i law cyn 31 Ionawr os yw'r ymgeisydd yn dymuno cael ei dderbyn i'r radd yn yr un flwyddyn.

**Arholiad**

8. Bydd y gweithiau a gyflwynir am Uwch Ddoethuriaeth yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Arholi a fydd yn cynnwys:
    - Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) neu ei enwebai.
    - Dau aelod o staff academaidd a benodir gan y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi).
9. Y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu ei enwebai) fydd yn gwasanaethu fel ysgrifennydd y pwyllgor.
10. Bydd y Pwyllgor Arholi yn penderfynu a oes achos *prima facie* dros gyfeirio'r gwaith i'w archwilio'n fanwl. Os bwriedir cyfeirio'r gwaith, bydd y Pwyllgor Arholi'n penodi dau ddyfarnwr allanol. Os bydd y pwyllgor yn penderfynu peidio â chyfeirio'r gwaith i'w archwilio'n fanwl, bydd yr ysgrifennydd yn hysbysu'r ymgeisydd o'r penderfyniad ac o'r hawl i apelio.
11. Bydd y ddau ddyfarnwr a benodwyd yn cael eu gwahodd i gyflwyno adroddiad manwl ar gwmpas, ansawdd a gwreiddioldeb y gwaith, gan nodi, yn eu barn hwy, a ddylid dyfarnu'r radd. Disgwylir i ddyfarnwyr ystyried y canlynol:

- A yw gwaith yr ymgeisydd yn dangos meistrolaeth o’r pwnc?
- A yw’r gwaith yn meddu ar yr ansawdd, y gwreiddioldeb, y teilyngdod a’r hynodrwydd sy’n deilwng o’r radd y cafodd ei gyflwyno ar ei chyfer?
- A yw’r gwaith yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu gwybodaeth o’r cyfryw natur fel ag i wneud yr ymgeisydd yn arbenigwr cydnabyddedig yn y maes yr ymdrinnir ag ef? (Ni fyddai'r maen prawf hwn yn cael ei ddefnyddio fel arfer yn achos cais am DMus neu DLitt sy'n seiliedig ar weithiau creadigol.)
- A ellir ystyried yr ymgeisydd yn deilwng i dderbyn y radd?

12. Bydd y Pwyllgor Arholi'n ystyried argymhellion y dyfarnwyr ac yn penderfynu a ddylid dyfarnu Uwch Ddoethuriaeth. Yn ôl disgresiwn yr arholwyr, gellir gwahodd yr ymgeisydd am gyfweliad.
13. Bydd yr ysgrifennydd yn sicrhau bod manylion y penderfyniad yn cael eu hadrodd yn briodol fel y gellir gwneud trefniadau i'r ymgeisydd fynychu seremoni raddio ac fel y gellir rhoi tystysgrif.
14. Caiff penderfyniad y Pwyllgor Arholi ei adrodd i'r Senedd.

**Gweithdrefn Apelio**

15. Gall ymgeiswyr apelio yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Arholi:
    - i beidio â chyfeirio cais i gael ei archwilio'n fanwl gan ddyfarnwyr allanol (yn unol â pharagraff 10).
    - i beidio â dyfarnu Uwch Ddoethuriaeth (yn unol â pharagraff 12).
16. Dim ond apeliadau sy’n seiliedig ar un o'r rhesymau/y ddau reswm canlynol a fydd yn cael eu hystyried gan y Brifysgol:
    - Diffygion neu anghysondebau yn y ffordd y cynhelir y drefn asesu, gan gynnwys cyfweliad os cynhaliwyd un, a'u bod o’r cyfryw natur nes peri amheuaeth resymol a fyddai’r Pwyllgor Arholi wedi dod i’r un penderfyniad pe na byddent wedi digwydd.
    - Tystiolaeth o ragfarn, neu duedd, neu asesu annigonol ar ran un neu fwy o aelodau’r Pwyllgor Arholi neu'r dyfarnwyr.
17. Ni fydd apeliadau sy’n cwestiynu barn academaidd y Pwyllgor Arholi neu'r dyfarnwyr yn cael eu derbyn.
18. Rhaid anfon unrhyw apêl yn ysgrifenedig at y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr ddim mwy na deufis ar ôl anfon hysbysiad o'r canlyniad at yr ymgeisydd. Nid ystyrir bod hysbysiad apelio syml a roddir o fewn y terfyn amser uchod, yn gyfwerth ag apêl briodol, ac ni chaiff ei dderbyn.
19. Bydd yr Is-ganghellor neu ei enwebai (na fydd o bosibl yn un o aelodau’r Pwyllgor Arholi gwreiddiol) yn archwilio cyflwyniad yr ymgeisydd. Os yw’r Is-ganghellor yn penderfynu bod achos i’w ystyried, bydd yr apêl yn cael ei chyfeirio at Fwrdd Apêl a fydd yn cynnwys tri pherson, ac ni fydd yr un ohonynt wedi cymryd rhan yn y broses arholi wreiddiol. Bydd y Bwrdd Apêl yn cynnwys Dirprwy Is-ganghellor, aelod academaidd o’r Senedd ac aelod allanol. Gelwir y Bwrdd Apêl

ynghyd gan y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu ei enwebai) a fydd yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Bwrdd.

20. Os yw'r Is-ganghellor (neu ei enwebai) yn penderfynu nad oes achos i'w ystyried, effaith hynny fydd gwrthod yr apêl.

21. Pan gaiff achos ei gyfeirio at Fwrdd Apêl, bydd y Bwrdd yn nodi ar ba sail y gwneir yr apêl ac yn seilio'i benderfyniad ar dystiolaeth cyflwyniad yr apelydd, tystiolaeth Cadeirydd y Pwyllgor Arholi, ac unrhyw dystiolaeth bellach y mae'n ei hystyried yn berthnasol.

22. Cynigir gwrandawiad personol i'r apelydd gan y Bwrdd Apêl, ac fe'i hysbysir o amser a dyddiad y cyfryw wrandawiad. Gall yr apelydd ddod ag aelod staff academaidd, lles neu gynghori'r Brifysgol gydag ef/hi, ond ni chânt ei gynrychioli.

23. Mewn Bwrdd Apêl, bydd gan y Cadeirydd hawl i ddatgan bod unrhyw fater y mae'r apelydd, neu unrhyw unigolyn sydd wedi dod gyda'r apelydd, yn ei gyflwyno yn annerbyniol os nad ydyw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chynnwys yr apêl a gyflwynwyd yn ysgrifenedig erbyn y dyddiad a nodwyd.

24. Bydd gan y Bwrdd Apêl rym i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:
    - Gwrthod yr apêl a pheidio cymryd unrhyw gamau pellach **neu**
    - Cadarnhau'r apêl.

25. Os cadarnheir yr apêl, gall y Bwrdd Apêl hefyd fabwysiadau un o'r camau gweithredu canlynol:
    a) Os yw'r apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chyfeirio cais i'w archwilio'n fanwl gan ddyfarnwyr allanol:
        i. Argymell y dylai'r Pwyllgor Arholi ailystyried ei benderfyniad.
        ii. Argymell y dylai Pwyllgor Arholi newydd ystyried y cais.
        iii. Penderfynu y dylid cyfeirio'r gwaith at ddyfarnwyr allanol. Os dewisir yr opsiwn hwn, rhaid i'r Bwrdd Apêl benderfynu a ddylai Pwyllgor Arholi newydd ystyried adroddiadau'r dyfarnwyr allanol.
    b) Os yw'r apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â dyfarnu Uwch Ddoethuriaeth:
        iv. Argymell y dylai'r Pwyllgor Arholi ailystyried ei benderfyniad.
        v. Argymell y dylai Pwyllgor Arholi newydd ystyried y cais ac adroddiadau'r dyfarnwyr allanol.
        vi. Penderfynu a ddylid cyfeirio'r gwaith i gael ei archwilio'n fanwl gan un neu ragor o ddyfarnwyr allanol newydd. Os dewisir yr opsiwn hwn, rhaid i'r Bwrdd Apêl benderfynu a ddylai Pwyllgor Arholi newydd ystyried adroddiadau'r dyfarnwyr allanol.
        vii. Penderfynu a yw'r ymgeisydd yn gymwys i gael Uwch Ddoethuriaeth a chadarnhau'r cymhwyster.

26. Os penodir dyfarnwr allanol newydd fel yn unol â'r diffiniad ym mharagraff 25iii neu baragraff 25vi, ni roddir unrhyw wybodaeth iddynt am yr asesiad blaenorol ac eithrio eu bod yn cynnal ailasesiad ar apêl.

27. Bydd penderfyniad y Bwrdd Apêl yn derfynol.
28. Bydd y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu ei enwebai) yn hysbysu'r apelydd o benderfyniad y Bwrdd Apêl.
29. Gall apelydd sy'n parhau'n anfodlon wedi i'r drefn apelio ddod i ben, apelio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Ceir manylion gan y Dirprwy Ysgrifennydd a Phennaeth Gwasanaethau Llywodraethu neu ar wefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol http://www.oiahe.org.uk/